Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# GWYBODAETH I YMGEISWYR: CYNORTHWYYDD BAR A CHEGIN

Awst 2026

Annwyl Ymgeisydd

Dyma becyn cais ar gyfer swydd Cynorthwyydd Bar a Chegin yn Theatr y Sherman. Diolch yn fawr am eich diddordeb yn y swydd. Rydym yn edrych i gyflogi Cynorthwyydd Bar a Chegin sydd siarad Cymraeg a Saesneg.

Theatr y Sherman yw un o brif theatrau cynhyrchu gwledydd Prydain, ac mae'n un o sefydliadau diwylliannol pwysicaf Cymru.

Yn Theatr y Sherman, fe rydym ni yn dychmygu byd lle gall pŵer y theatr greu byd tecach, mwy tosturiol ac unedig. Cawn ein hysgogi i gyflawni'r weledigaeth yma yn ddyddiol. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy greu a churadu profiadau theatr byw i'w rhannu ac i ysbrydoli pobl o bob cefndir ar draws De Cymru i fedru gwneud byd gwell, yn eu ffordd eu hunain. Credwn fod pawb â'r hawl i gael mynediad at greadigrwydd a hunanfynegiant, ac ymdrechwn yn gyson i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gael eu cyfoethogi gan y theatr.

Mae ein ffocws ar ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd ac ar feithrin artistiaid Cymraeg ac o Gymru yn ein gwneud ni'n injan i fyd y theatr yng Nghymru. Trwy ein cynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman, rydym yn adrodd straeon Cymraeg sy'n cyseinio negeseuon o bwys yn fyd-eang, a chaiff pob un eu creu o dan ein to yng nghalon Caerdydd. Rydym yn le i bawb, gan greu cyfleoedd i bobl De Cymru gysylltu â'r theatr drwy ymrwymiad ysbrydoledig a gweledigaethol.

Yn ystod blynyddoedd diwethaf rydym ni wedi mynd o gryfder i gryfder gan ennill sawl gwobr genedlaethol adnabyddus am ein gwaith newidiol. Rydym wedi defnyddio'r amser a gafwyd iddynt gan y pan demig ar gyfer gwella ein hadeilad, ein systemau, ag ein seilwaith, ag nawr rydym yn edrych am fwy o aelodau i ymuno a'n tîm ar draws nifer o swyddi.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae ein cynyrchiadau wedi bod yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd a'r beirniaid fel ei gilydd ac rydyn ni wedi gweld niferoedd ein cynulleidfaoedd yn Theatr y Sherman yn rhagori ar y lefelau cyn y pandemig. Mae ailymgysylltu â'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau yn parhau wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud, ac mae'r swydd hon yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg mor esmwyth â phosib i alluogi hynny.

Rydyn ni eisiau i Theatr y Sherman fod yn hygyrch i bawb ac felly mae'n hynod bwysig i ni fod ein tîm yn y theatr yn adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar draws y ddinas a thu hwnt. Rydym felly'n croesawu'n arbennig ymgeiswyr o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau B/byddar ac anabl sy'n cael eu tangynrychioli o fewn ein tîm ar hyn o bryd.

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

I wneud cais am y swydd, llwythwch y ffurflen gais, y daflen argaeledd a'r ffurflen cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o'n gwefan: www.shermantheatre.co.uk/amdanom-ni/jobs/?lang=cy a'u hanfon at recruitment@shermantheatre.co.uk. Noder, yn unol â'n polisi amgylcheddol, mai dim ond ceisiadau electronig y byddwn yn ymdrin â nhw. Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi cael eich cais dros e-bost.

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch cyn i chi wneud cais, neu i drafod unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau hygyrchedd er mwyn eich galluogi i gymryd rhan yn y broses gyfweld yn llawn, cysylltwch â ni drwy recruitment@shermantheatre.co.uk

Diolch am eich amser ar y cais hwn - rydym wir yn edrych ymlaen at glywed gennych, ac at ystyried sut bydd eich sgiliau, eich profiadau a'ch angerdd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n gwaith.

Pob lwc gyda'ch cais

Yn gywir

Julia Barry
Prif Weithredwr
Theatr y Sherman

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# DISGRIFIAD SWYDD: CYNORTHWYYDD BAR A CHEGIN

**Prif ddiben y swydd:**

- Gweithio fel rhan o dîm sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r ansawdd uchaf, mewn modd sydd bob amser yn hawddgar, yn gyfeillgar ac yn groesawgar.
- Sicrhau diogelwch a lles yr adeilad a chynnal y safonau uchaf o ran gofal cwsmeriaid, ymddangosiad ac arferion gweithio tîm y Bar a'r Gegin.
- Hyrwyddo lefelau eithriadol o wasanaeth cwsmeriaid, gweithio gyda Rheolwr y Bar a'r Gegin a thîm Blaen y Tŷ i sicrhau safonau gwasanaeth cwsmeriaid ym mhob agwedd ar ryngweithiad y cwmni gyda'r cyhoedd.
- Paratoi a gweini bwyd a diod o ansawdd uchel mewn modd sy'n ystyried yr holl reoliadau iechyd a diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau'r Sherman.
- Paratoi diodydd o ansawdd uchel yn unol â rheoliadau iechyd a diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau'r Sherman.
- Ymgymryd â hyfforddiant a gallu ysgwyddo cyfrifoldebau mewn modd sy'n dangos gwerthoedd y cwmni.

**Yn adrodd i:**

Rheolwr y Bar a'r Gegin, Goruchwyliwr y Bar a'r Gegin, Rheolwyr Dyletswydd

**Cydberthnasau allweddol:**

Tîm y Blaen Tŷ, Y Tîm Marchnata a Chyfathrebu

**Manylion y cytundeb:**

| | |
|---|---|
| **Cyflog** | £12.71 yr awr. |
| **Tymor** | Cynigir y swydd fel cytundeb dim oriau. |
| **Oriau** | Yn amrywio o wythnos i wythnos yn dibynnu ar oriau gweithredu a pherfformiadau sy'n digwydd yn Theatr y Sherman. Hyblygrwydd i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau, gan gynnwys nosweithiau Gwener a Sadwrn yn benodol, pan fydd y sifftiau yma ar gael. |
| **Cyfnod Rhybudd** | 1 wythnos. |
| **Pensiwn** | Mae Theatr y Sherman yn gweithredu cynllun pensiwn y gweithle cymwys. |
| **Yr hawl i weithio** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau o dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006. |
| **Geirdaon** | Mae cynigion swydd yn amodol ar dderbyn geirdaon sy'n foddhaol i Theatr y Sherman. |
| **Adleoli** | Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fyw o fewn pellter cymudo i Theatr y Sherman. |
| **Dyddiad dechrau** | Mae'r swydd ar gael ar unwaith. |

I wneud cais am y swydd, llwythwch y ffurflen gais, y daflen argaeledd a'r ffurflen cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o'n gwefan: www.shermantheatre.co.uk/amdanom-ni/jobs/?lang=cy a'u hanfon at recruitment@shermantheatre.co.uk.

Noder, yn unol â'n polisi amgylcheddol, mai dim ond ceisiadau electronig y byddwn yn ymdrin â nhw.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. **Gwasanaeth Cwsmeriaid:**
   - Darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf bob amser, yn unol â safonau'r Theatr y Sherman
   - Dangos gwybodaeth dda am ddigwyddiadau, prisiau, pecynnau, cynigion hyrwyddo, gweithgareddau yn yr adeilad a rhaglen o newidiadau er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon.
   - Gwrando'n ofalus ar gwsmeriaid, casglu adborth a dilyn protocolau a gweithdrefnau'r cwmni, gan gyfeirio at uwch staff yn ôl yr angen.
   - Sicrhau bod stoc lawn ar gael o'r holl daflenni a deunyddiau manwerthu a'u bod yn cael eu harddangos yn ddeniadol.
   - Dilyn ceisiadau'r person sy'n goruchwylio eich gwaith.
   - Gweithio fel rhan o dîm yn rhannu eich gwybodaeth gydag eraill.
   - Mynd i ddigwyddiadau hyfforddi i sicrhau eich bod yn gallu ymgymryd â'ch cyfrifoldebau mewn modd sy'n dangos gwerthoedd y cwmni.
   - Mynychu cyfarfodydd Tîm a chyfrannu atynt yn ôl yr angen.
2. **Hyblygrwydd:**
   - Bydd sifftiau yn cael eu dyrannu ar gyfer y Bar neu'r Gegin ymlaen llaw, fodd bynnag, dylech fod yn barod i weithio yn unrhyw ardal ar unrhyw adeg.
3. **Bar/Arlwyo:**
   - Diogelwch Bwyd
     Bod yn ymwybodol o weithdrefnau diogelwch bwyd sylfaenol.
   - Paratoi Bwyd
     Paratoi eitemau o'r ddewislen yn unol â dulliau a chyflwyno'r bwyd mewn modd a ragnodwyd.
   - Gwerthu Diod
     Dilyn deddfau trwyddedu alcohol a bod â dealltwriaeth o bolisïau gwerthu alcohol Theatr y Sherman. Gwerthu diodydd yn y bar cyn/ar ôl sioeau gan gynnwys archebion yn ystod yr egwyl.
   - Gwasanaeth
     Derbyn archebion am fwyd a diod gan gwsmeriaid a gweini diodydd a phrydau bwyd wrth fyrddau.
   - Ail-lenwi stoc
     Sicrhau bod yr holl nwyddau ar gael i'w gwerthu a'u bod wedi'u harddangos yn briodol. Cymryd agwedd ragweithiol tuag at lefelau stoc isel.
   - Trafodion
     Cymryd taliadau ar ffurf arian parod neu gerdyn gan sicrhau cysoniad cywir.
   - Casglu Gwastraff
     Cadw ardaloedd y Bar a'r Cyntedd yn lân ac yn daclus cyn, yn ystod, ac ar ôl y perfformiad.
   - Gofal Cwsmeriaid
     Rhoi cyfarwyddiadau a rhannu gwybodaeth am y digwyddiadau a'r adeilad.

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

- **Gweithdrefnau gwacáu'r adeilad**
  Darparu allanfa ddiogel i'r cyhoedd pe bai argyfwng.
- **Cynorthwyo yn y Bar Caffi**
  Sicrhau bod y cyntedd yn cael ei gadw'n daclus drwy gasglu gwydrau, llestri, cyllyll a ffyrc ac unrhyw beth arall yn y Bar Caffi, gan sicrhau eu bod yn cael eu glanhau yn y peiriant golchi priodol a'u gosod yn ôl gyda'r stoc glân – yn enwedig yn ystod adegau prysur.

**4. Argyfwng a Gwacáu**

- Deall y gweithdrefnau a bod yn barod i weithredu'r gweithdrefnau ar gyfer rôl y swyddog tân.
- Ymddwyn yn bwyllog ym mhob sefyllfa.
- Adrodd am bob perygl i'r rheolwr llinell priodol.
- Ymgymryd â hyfforddiant yn rôl y swyddog tân.
- Bod yn unigolyn allweddol yn y broses wacáu a gweithredu fel Cydlynydd Tân yn ystod argyfwng neu wacáu.

**5. Gweithdrefnau a Thrin Arian Parod**

- Cymryd gofal ym mhob trafodyn i leihau anghysondebau a gwybod beth yw prisiau cywir cynnyrch i gydymffurfio â gweithdrefnau archwilio Theatr y Sherman.
- Dilyn rheoliadau'r diwydiant taliadau cerdyn (PCI) a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfau cysylltiedig.
- Ymddwyn yn bwyllog ym mhob sefyllfa.
- Ymgymryd â hyfforddiant yn rôl y swyddog tân.
- Bod yn unigolyn allweddol yn y broses wacáu a gweithredu fel Cydlynydd Tân yn ystod argyfwng neu wacáu.
- Cadw at systemau gweinyddol
- Ysgwyddo cyfrifoldeb unigol priodol o ran parchu, hyrwyddo, a gweithredu polisïau Theatr y Sherman ar Gyfle Cyfartal, Iechyd a Diogelwch, Gofal Cwsmeriaid a Thrwyddedu.

SHERMAN THEATR • THEATRE

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# MANYLEB YR UNIGOLYN: CYNORTHWYYDD BAR A CHEGIN

Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod ar gael yn ystod y dydd, ar benwythnosau a rhai cyfnodau gwyliau.
Rhaid i ymgeiswyr fod ar gael i weithio o leiaf un dydd Gwener a dau ddydd Sadwrn bob mis, er nad oes modd gwarantu'r sifftiau yma. Yn gyffredinol, mae Theatr y Sherman ar gau ar ddydd Sul, fodd bynnag, ar achlysuron penodol bydd y Bar Caffi ar agor pan fydd perfformiadau neu ddigwyddiadau.

Byddai'r swydd hon yn ddelfrydol i ymgeiswyr sy'n allblyg, hyderus a chadarnhaol ac sydd hefyd yn meddu ar y sgiliau a'r galluoedd allweddol canlynol:

## HANFODOL

- *Profiad o baratoi bwyd ar gyfer y cyhoedd.*
- *Dealltwriaeth o weithdrefnau a deddfwriaeth berthnasol.*
- *Dealltwriaeth o reoliadau Diogelwch Bwyd.*
- *Dealltwriaeth o reoli alergenau.*
- *Profiad da o weithio tu ôl i far.*
- *Profiad o weithio mewn amgylchedd gwasanaeth o dan bwysau.*
- *Sgiliau rhyngbersonol/gofal cwsmeriaid gwych: rhaid bod agored, yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar.*
- *Y gallu i ddarparu lefel uchel o ofal cwsmeriaid.*
- *Y gallu i weithio fel rhan o dîm.*
- *Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth.*
- *Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau.*
- *Y gallu i ymateb yn gadarnhaol i newidiadau yn yr amgylchedd gwaith ac i ddelio â phwysau o fewn y rôl pan fyddant yn codi.*
- *Aros yn ddigynnwrf ac ymddwyn yn broffesiynol mewn sefyllfaoedd llawn straen.*
- *Cydwybodol: Mae gan Gynorthwywyr Bar a Chegin rôl ddiogelwch bwysig.*
- *Cyflwyniad personol da: Mae'r Cynorthwywyr Bar a Chegin yn cynrychioli wyneb cyhoeddus Theatr y Sherman.*
- *Hyblyg ynghylch oriau gwaith.*
- *18+ oed.*

## DYMUNOL

- *Barista hyfforddedig.*
- *Profiad o weithio mewn amgylchedd cegin prysur a chyflym.*
- *Diddordeb yn y theatr.*
- *Gallu cyfathrebu yn Gymraeg.*
- *Profiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd theatr.*
- *Bod yn  barod i dderbyn hyfforddiant pelach yn ôl yr angen.*
- *Cymhwyster Diogelwch Bwyd Lefel 2 (neu uwch).*
- *Deiliad Trwydded Bersonol.*